Hysbysiad preifatrwydd yn ymwneud â phrosesu data personol gan yr ysgol, at ddiben Cofnodi ac Adrodd ar Ddamweiniau a Digwyddiadau (Iechyd a Diogelwch)

(Fersiwn 1.0 – wef 09.08.2022)

Am yr hysbysiad preifatrwydd hwn

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol i brosesu data personol gan ysgolion cynradd, uwchradd ac ysgolion pob oed yn Rhondda Cynon Taf (RhCT) a gynhelir gan yr awdurdod lleol (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf) (CBRhCT). Mae hefyd yn berthnasol i brosesu data personol gan ysgolion ffydd yn RhCT sy'n cael eu hariannu'n wirfoddol.

Cliciwch yma am restr lawn o'r ysgolion y mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn berthnasol iddyn nhw.

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn wedi'i ddarparu gan GBSRhCT ar gyfer ac ar ran ysgolion o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth diogelu data.

Cyflwyniad

Bwriad yr hysbysiad preifatrwydd hwn yw rhoi gwybodaeth am sut y bydd yr ysgol yn defnyddio (neu'n 'prosesu') data personol am unigolion gan gynnwys ein disgyblion presennol, blaenorol a darpar ddisgyblion a'u rhieni, cynhalwyr neu warcheidwaid (wedi'u cyfeirio atyn nhw yn yr hysbysiad yn 'rhieni') at ddiben statudol cofnodi ac adrodd ar ddamweiniau a digwyddiadau.

Er ein bod wedi ceisio gwneud yr hysbysiad preifatrwydd hwn mor glir a chryno â phosibl, gall y categorïau o ddata personol rydyn ni'n eu prosesu amrywio yn dibynnu ar natur y ddamwain neu ddigwyddiad a'r rheiny dan sylw, ac ati. Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnoch chi yn ymwneud â damwain neu ddigwyddiad penodol, mae croeso i chi gysylltu â'r Swyddog Arweiniol Diogelu Data.

Dim ond y lleiafswm o wybodaeth sydd ei hangen mewn perthynas â'r diben fydd yn cael ei phrosesu.

Dylech chi ddarllen yr hysbysiad hwn yn ogystal â dogfennau canlynol yr ysgol:

- Hysbysiad Preifatrwydd Cyffredinol
- Polisi Iechyd a Diogelwch

Rheolwr Data

Yr ysgol yw'r rheolwr data ar gyfer y data personol rydyn ni'n eu prosesu, oni nodir yn wahanol. Mae hyn yn cynnwys y data personol a gaiff eu prosesu gan y corff llywodraethu, y pennaeth, llywodraethwyr unigol, athrawon, cynorthwywyr addysgu a staff cymorth, ac ati.

Mae'r ysgol wedi'i chofrestru gyda Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (ICO) yn rheolwr.

Sut i gysylltu â ni ynghylch materion neu bryderon diogelu data

Swyddog Arweiniol Diogelu Data'r ysgol yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer materion diogelu data. Mae modd cysylltu â'r Swyddog Arweiniol Diogelu Data gan ddefnyddio ein dulliau cyswllt arferol, sef dros y ffôn, drwy e-bost, drwy anfon llythyr ac wyneb yn wyneb yn yr ysgol.

Cliciwch yma am fanylion cyswllt yr ysgol.

Y Swyddog Diogelu Data

Mae CBSRhCT yn darparu gwasanaeth cymorth diogelu data i'r ysgol o dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth, gan gynnwys darparu Swyddog Diogelu Data (DPO).

Mae modd cysylltu â'r DPO mewn perthynas â materion diogelu data. Serch hynny, dyma eich annog i gysylltu â'r ysgol yn y lle cyntaf. Os bydd angen i chi gysylltu â'r DPO yn uniongyrchol mae modd gwneud hynny drwy anfon e-bost:

- Rheoli.Gwybodaeth@rctcbc.gov.uk

Wrth gysylltu â'r DPO, dyma argymell eich bod yn anfon copi o'r ohebiaeth at yr ysgol yn rhan o'i swyddogaeth yn rheolwr data.

Y mathau o ddata personol rydyn ni'n eu prosesu

Mae'n bosibl y byddwn ni'n prosesu'r categorïau canlynol o ddata personol i gyflawni ein swyddogaethau statudol sy'n ymwneud â chofnodi ac adrodd ar ddamweiniau a digwyddiadau.

a) Data personol yn ymwneud â'r person sy'n <u>adrodd</u> ar y ddamwain neu'r digwyddiad

- Enw a manylion cyswllt
- Dosbarth, blwyddyn (os yw'n ddisgybl yn yr ysgol)
- Swydd (os yw'n addysgu yn yr ysgol)
- Perthynas â'r person sydd wedi cael damwain neu wedi bod yn rhan o ddigwyddiad (os yw'n berthnasol)
- Gwybodaeth yn ymwneud â'r ddamwain neu'r digwyddiad, e.e. amser, dyddiad, lleoliad, manylion yr hyn a ddigwyddodd, y rheiny dan sylw, y camau a gymerwyd, ac ati

b) Data personol yn ymwneud â'r person sydd wedi <u>cael</u> damwain neu wedi bod yn rhan o ddigwyddiad

- Enw a manylion cyswllt
- Oedran/dyddiad geni
- Dosbarth, blwyddyn (os yw'n ddisgybl yn yr ysgol)
- Swydd (os yw'n addysgu yn yr ysgol)
- Gwybodaeth yn ymwneud â'r ddamwain neu'r digwyddiad, e.e. amser, dyddiad, lleoliad, manylion yr hyn a ddigwyddodd, y rheiny dan sylw, y camau a gymerwyd, ac ati
- Gwybodaeth feddygol berthnasol (os yw'n berthnasol i'r ddamwain neu'r digwyddiad)

c) Data personol yn ymwneud â thystion

Efallai y bydd achlysuron pan fydd tyst i ddamwain neu ddigwyddiad. Mae modd i dyst fod yn aelod o staff, yn ddisgybl, yn ymwelydd, yn aelod o'r cyhoedd neu'n aelod o'r corff llywodraethu.

Rydyn ni'n debygol o brosesu'r wybodaeth ganlynol sy'n ymwneud â thyst:

- Enw a manylion cyswllt
- Pwy ydyn nhw, e.e. gweithiwr, disgybl, rhiant ac ati
- Manylion y ddamwain neu'r digwyddiad – yr hyn y maen nhw wedi'i weld, ac ati

d) Data personol yn ymwneud â staff yr ysgol a staff eraill

Gan ddibynnu ar natur/lleoliad ac ati'r ddamwain neu'r digwyddiad a'r rheiny dan sylw, efallai y bydd angen cofnodi gwybodaeth yn ymwneud ag unrhyw weithwyr a oedd ar ddyletswydd ar adeg y ddamwain neu'r digwyddiad, ac ati.

Mae'r wybodaeth rydyn ni'n ei phrosesu yn debygol o amrywio ond gall gynnwys:

- Enw a manylion cyswllt
- Rôl/teitl/dyletswyddau swydd
- Patrwm gwaith/oriau/gwybodaeth rota (os yw'n berthnasol i'r ddamwain neu'r digwyddiad)
- Hanes hyfforddiant (os yw'n berthnasol i'r ddamwain neu'r digwyddiad)
- Manylion y ddamwain neu'r digwyddiad – ble roedden nhw adeg y ddamwain neu'r digwyddiad, yr hyn a welson nhw, ac ati

Pam rydyn ni'n prosesu data personol

Rydyn ni'n prosesu'r data personol i gydymffurfio â gofynion statudol sy'n ymwneud â damweiniau a digwyddiadau. Gall hyn gynnwys y gweithgareddau canlynol ond heb fod yn gyfyngedig iddyn nhw:

- Cofnodi'r ddamwain neu'r digwyddiad
- Ymchwilio i'r ddamwain neu'r digwyddiad
- Rhoi gwybod am y ddamwain neu'r digwyddiad i'r corff llywodraethu
- Cofnodi canlyniad y ddamwain neu'r digwyddiad
- Rhoi gwybod am y ddamwain neu'r digwyddiad i'r awdurdodau perthnasol, e.e. awdurdod lleol, Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Cefnogi unrhyw ymchwiliad wedi'i gynnal gan yr awdurdod perthnasol
- Paratoi adroddiadau yn ymwneud â'r ddamwain neu'r digwyddiad, e.e. nifer, math, lleoliad y ddamwain neu'r digwyddiad, ac ati (noder: er y caiff data personol eu defnyddio i baratoi'r adroddiadau hyn, ni chaiff unigolion eu henwi)

Ein sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r data personol

O dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR), ein sail gyfreithlon ar gyfer prosesu'r data personol i gydymffurfio â gofynion statudol yn ymwneud â damweiniau a digwyddiadau yw:

- **Rhwymedigaeth gyfreithiol** (c) – prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer rwymedigaeth gyfreithiol sydd wedi'i rhoi i'r rheolwr
- **Tasg gyhoeddus** – Erthygl 6 (e) – prosesu sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu arfer awdurdod swyddogol sydd wedi'i roi i'r rheolwr
- **Budd sylweddol i'r cyhoedd** – Erthygl 9 (2) (g) – prosesu sy'n angenrheidiol er budd sylweddol y cyhoedd, ar sail cyfraith Undebol neu aelod-wladwriaeth sy'n gyfraneddol i'r nod, yn parchu hanfod hawliau diogelu data ac yn darparu mesurau addas a phenodol i ddiogelu hawliau sylfaenol a buddion y person y mae'r data amdano

Y ddeddfwriaeth sylfaenol, rheoliadau a chanllawiau sy'n ategu hyn – ond heb fod yn gyfyngedig iddyn nhw – yw:

- Rheoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus (‘RIDDOR’) 2013
- Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974
- Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999
- Rheoliadau Nawdd Cymdeithasol (Hawliadau a Thaliadau) 1979
- Canllawiau'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch i ysgolion

Gan bwy neu o ble rydyn ni'n casglu data personol?

Mae'n bosibl i ni dderbyn data gan:

- Y person sy'n adrodd ar y ddamwain neu'r digwyddiad
- Y person sydd wedi cael y ddamwain neu sydd wedi bod yn rhan o'r digwyddiad
- Y rheiny a oedd yn gysylltiedig â'r ddamwain neu'r digwyddiad
- Tystion i'r ddamwain neu'r digwyddiad
- Awdurdodau perthnasol, e.e. awdurdod lleol, Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Gwasanaethau brys

Gall yr unigolion uchod gynnwys:

- Disgyblion
- Rhieni
- Llywodraethwyr
- Staff yr ysgol
- Staff yr awdurdod lleol sy'n gweithio yn yr ysgol, e.e. staff clwb brecwast, staff prydau ysgol
- Ymwelwyr â'r ysgol/aelodau o'r cyhoedd

Gyda phwy mae data yn cael eu rhannu?

Mae'n bosibl y byddwn ni'n rhannu data personol â'r sefydliadau allweddol canlynol i gydymffurfio â gofynion statudol yn ymwneud â damweiniau a digwyddiadau.

Dim ond y lleiafswm o wybodaeth sydd ei hangen mewn perthynas â'r diben fydd yn cael ei phrosesu. Bydd yr wybodaeth a gaiff ei rhannu a gyda phwy y caiff ei rhannu yn dibynnu ar natur a difrifoldeb y ddamwain neu'r digwyddiad a'r rheiny dan sylw.

Pwy	Diben
Corff llywodraethu	Adrodd • Rhaid adrodd i'r corff llywodraethu am unrhyw ddamweiniau difrifol, digwyddiadau peryglus a damweiniau a fu bron â digwydd • Rhaid adrodd i'r corff llywodraethu am bob digwyddiad treisgar a damweiniau a fu bron â digwydd
Awdurdod lleol (CBRhCT) – Carfan Iechyd a Diogelwch	Adrodd • Rhaid adrodd i'r awdurdod lleol am bob damwain ddifrifol
Awdurdod lleol (CBRhCT) – Adran Addysg	Adrodd • Rhaid adrodd i'r Adran Addysg am unrhyw ddamweiniau difrifol, digwyddiadau peryglus a damweiniau a fu bron â digwydd yn unol â'r gweithdrefnau wedi'u cyhoeddi gan yr Awdurdod Addysg Lleol • Rhaid rhoi gwybod i'r Adran Addysg am bob digwyddiad treisgar a damweiniau a fu bron â digwydd yn unol â'r gweithdrefnau wedi'u cyhoeddi gan yr Awdurdod Addysg Lleol
Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac	Adrodd/gofyniad cyfreithiol:

awdurdodau perthnasol eraill	• Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yw'r corff gorfodi ar gyfer iechyd a diogelwch mewn ysgolion. Caiff gwybodaeth ei rhannu os yw'r digwyddiad/damwain yn un mae rhaid rhoi gwybod amdano/amdani o dan Reoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013 ('RIDDOR')
Awdurdod lleol (CBRhCT) – Eiddo'r Cyngor	Mewn achos o ddifrod i eiddo awdurdod lleol (adeiladau ysgol)
Gwasanaethau brys	Mewn achos o ddamwain/digwyddiad sydd angen cymorth brys
Yr heddlu	Mewn achos o ddamwain/digwyddiad sy'n fater troseddol
Gwasanaethau cymorth i fusnesau'r awdurdod lleol (CBRhCT)	Mae nifer o wasanaethau'r awdurdod lleol yn cefnogi gwaith yr ysgol mewn perthynas â chofnodi ac adrodd ar ddamweiniau a digwyddiadau. Mae modd i hyn gynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i: Adran Yswiriant (a thriniwr hawliadau yswiriant) – Os caiff hawliad yswiriant ei wneud (neu'n debygol o gael ei wneud) mewn perthynas â damwain neu ddigwyddiad mae'n bosibl y byddwn ni'n rhannu gwybodaeth i gefnogi'r broses hawliadau (gweler yr hysbysiad preifatrwydd ar wahân ar gyfer Hawliadau Yswiriant). Gwasanaethau Cyfreithiol – Os bydd unrhyw gamau cyfreithiol yn cael eu cymryd (neu'n debygol o gael eu cymryd) mewn perthynas â damwain neu ddigwyddiad, mae'n bosibl y byddwn ni'n rhannu gwybodaeth er mwyn cefnogi'r camau cyfreithiol. Cymorth i Lywodraethwyr – Yn dibynnu ar natur a difrifoldeb y ddamwain neu'r digwyddiad efallai y byddwn ni ymgynghori ag Adran Cymorth i Lywodraethwyr i gael cyngor, gwybodaeth ac arweiniad, ac ati.

Proseswyr Data

Mae prosesydd data yn gwmni neu sefydliad sy'n prosesu data personol ar ran rheolwr. Mae'r ysgol yn defnyddio proseswyr data sy'n darparu gwasanaethau i ni. Y categori o broseswyr data y mae'r ysgol yn eu defnyddio mewn perthynas â phrosesu data ar ddamweiniau a digwyddiadau yw:

- Cyflenwyr systemau/darparwyr gwasanaethau TG

Dim ond ar ein cyfarwyddyd ni y mae ein proseswyr data yn gweithredu. Does dim hawl iddyn nhw wneud unrhyw beth â'r data personol ac eithrio ein bod ni'n eu cyfarwyddo i wneud hynny. Fyddan nhw ddim yn rhannu'r data personol ag unrhyw sefydliad ar wahân i ni nac yn eu defnyddio at eu dibenion eu hunain. Byddan nhw'n eu cadw'n ddiogel am y cyfnod rydyn ni wedi'u cyfarwyddo i wneud hynny.

Os oes gyda chi ymholiad penodol yn ymwneud â'n proseswyr data, cysylltwch â'r Swyddog Arweiniol Diogelu Data.

Am ba mor hir y byddwn ni'n cadw'r data personol?

Byddwn ni'n cadw'r data personol sydd wedi'u cynnwys yn rhan o gofnodion damweiniau a digwyddiadau yn unol â Phecyn Cymorth Rheoli Gwybodaeth i Ysgolion y Gymdeithas Rheoli Cofnodion Gwybodaeth (IMRS):

Cofnod	Disgrifiad Cofnod Sylfaenol	Darpariaeth Statudol	Cyfnod Cadw'r Wybodaeth
Adrodd ar ddamweiniau – na chaiff eu hadrodd drwy RIDDOR	Llyfr/cofnod damweiniau'r ysgol Damweiniau yn ymwneud ag unigolion o dan 18 oed neu'n hŷn adeg y digwyddiad	Rheoliadau Nawdd Cymdeithasol (Hawliadau a Thaliadau) 1979 Deddf Gweinyddu Nawdd Cymdeithasol 1992 Deddf Cyfyngiadau 1980	3 blynedd ar ôl y cofnod olaf yn y llyfr damweiniau
Adrodd ar ddamweiniau – a gaiff eu hadrodd drwy RIDDOR	Cofnodion yn ymwneud ag unrhyw farwolaeth, anaf, afiechyd neu ddigwyddiad peryglus (RIDDOR) y mae rhaid eu hadrodd	Rheoliadau Cofnodi Anafiadau, Afiechydon a Digwyddiadau Peryglus 2013	Dyddiad y digwyddiad + 3 blynedd

Er mwyn dilyn egwyddor storio data'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, mae'r cofnodion yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Ni chaiff yr holl ddata personol eu cadw. Dim ond data personol sy'n berthnasol sy'n cael eu cadw am y cyfnod cyfan. Caiff unrhyw wybodaeth sy'n amherthnasol yn yr hir dymor neu sy'n amherthnasol o ran tystiolaeth ei dinistrio yn rhan o arferion busnes arferol.

Eich hawliau o ran diogelu data

O dan gyfraith diogelu data, mae gyda chi hawliau y mae angen i ni roi gwybod i chi amdanyn nhw. Mae'r hawliau sy'n berthnasol i chi yn dibynnu ar ein rheswm dros brosesu eich data personol.

Eich hawl mynediad

Mae gyda chi'r hawl i ofyn i ni am gopïau o'ch data personol. Mae'r hawl hon bob amser yn berthnasol. Mae rhai eithriadau, sy'n golygu efallai na fyddwch chi bob amser yn derbyn yr holl ddata rydyn ni'n eu prosesu. Cewch ddarllen rhagor am yr hawl hon ar wefan yr ICO.

Eich hawl i gywiro eich data

Mae gyda chi'r hawl i ofyn i ni gywiro data personol sy'n anghywir yn eich barn chi. Hefyd, mae gyda chi'r hawl i ofyn i ni gwblhau data sy'n anghyflawn yn eich barn chi. Mae'r hawl hon bob amser yn berthnasol. Cewch ddarllen rhagor am yr hawl yma ar wefan yr ICO.

Eich hawl i ddileu eich data

Mae gyda chi'r hawl i ofyn i ni ddileu eich data personol mewn rhai amgylchiadau. Cewch ddarllen rhagor am yr hawl hon ar wefan yr ICO.

Eich hawl i gyfyngu ar sut mae sefydliadau'n defnyddio'ch data

Mae gyda chi'r hawl i ofyn i ni gyfyngu ar brosesu eich data personol mewn rhai amgylchiadau. Cewch ddarllen rhagor am yr hawl hon ar wefan yr ICO.

Eich hawl i wrthwynebu'r defnydd o'ch data

Mae gyda chi'r hawl i wrthwynebu i ni brosesu eich data personol mewn rhai amgylchiadau. Cewch ddarllen rhagor am yr hawl hon ar wefan yr ICO.

Eich hawl o ran eich data'n cael eu rhannu â sefydliadau eraill

Mae hyn yn berthnasol dim ond i ddata personol rydych chi wedi eu rhoi i ni. Mae gyda chi'r hawl i ofyn i ni drosglwyddo'r data personol yr oeddech chi wedi'i darparu i ni o un sefydliad i'r llall neu ei roi i chi. Mae'r hawl hon yn berthnasol dim ond os ydyn ni'n prosesu'r data personol yn seiliedig ar eich caniatâd, os ydych chi o dan gontract a bod y prosesu'n awtomatig, neu os ydych chi'n trafod mynd o dan gontract. Cewch ddarllen rhagor am yr hawl hon ar wefan yr ICO.

Does dim rhaid i chi dalu am arfer eich hawliau. Mae gyda ni fis i ymateb i'ch cais o'r dyddiad y caiff eich cais ei ddilysu. Gallwn ni ymestyn y cyfnod hwn am ddau fis arall os yw'r cais yn gymhleth neu os bydd nifer o geisiadau'n dod i law gennych chi.

Cysylltwch â Swyddog Arweiniol Diogelu Data'r ysgol os ydych chi'n dymuno gwneud cais.

Eich hawl i gyflwyno cwyn am ddiogelu data i'r ysgol

Mae gyda chi'r hawl i gwyno i'r ysgol os ydych chi o'r farn ein bod ni ddim wedi trin eich data personol yn gyfrifol ac yn unol ag arfer da.

Os oes gyda chi bryder, dyma'ch annog i gysylltu â'r Swyddog Arweiniol Diogelu Data yn y lle cyntaf. Mae modd datrys y rhan fwyaf o bryderon yn gymharol gyflym trwy alwad ffôn syml neu e-bost i'r ysgol. Os ydych chi'n dymuno gwneud cwyn ffurfiol, mae modd gwneud hynny drwy ein polisi cwynion.

Eich hawl i gyflwyno cwyn am ddiogelu data i'r ICO

Cewch hefyd gyflwyno cwyn i'r ICO os ydych chi'n anfodlon â sut rydyn ni wedi defnyddio'ch data.

Gwybodaeth gyswllt yr ICO:

- Cyfeiriad: Information Commissioner's Office, Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, Cheshire, SK9 5AF
- Rhif y Llinell Gymorth: 0303 123 1113
- Gwefan: http://www.ico.org.uk.

Rheoli'r Fersiwn

Rhif y Fersiwn	Dilys o	Dilys hyd at	Sylwadau
1.0	09.08.2022		Llunio'r ddogfen. Y ddogfen derfynol.